# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, I. Buckley, A.M. Collins, M. Cowpe, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd W.A. Hennessy a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

415 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. "

416 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.A. Cave a R. Fisher

417 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

418 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

419 DIWEDDARIAD CHWARAEON A CHWARAE 2022/23 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad y Prif Swyddog Byw'n Iach i gyflwyno'r adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod am weithgareddau a gwaith cyfredol o fewn Is-adran Chwaraeon a Chwarae y Cyngor.

Dros gyfres o sleidiau Powerpoint a dau fideo hyrwyddo byr, manylodd y Prif Swyddog Byw'n Iach ar y gwaith a gyflawnwyd gan dîm Chwaraeon a Chwarae y

Cyngor yn y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023, a thynnu sylw at lawer o'r mentrau llwyddiannus a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cymorth i glybiau, haf o hwyl, llesiant y gaeaf a chynnal cynlluniau chwarae. Cynyddodd y mentrau lefelau rhyngweithio cymdeithasol am gost isel, neu heb unrhyw gostau. Roeddent hefyd yn lleihau'r angen i deithio gan fod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn lleol, ac yn annog unigolion i ymarfer corff yn yr awyr agored.

Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor hefyd am Lwybr Arweinwyr Chwaraeon Ifanc y Fro a Chynllun y Llysgenhadon Ifanc. Roedd y ddwy fenter yn annog pobl ifanc i ddatblygu ffyrdd iach o fyw, i ennyn hyder, a datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog ac arweinwyr chwaraeon y dyfodol.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem drwy longyfarch swyddogion am lunio adroddiad cadarnhaol, a holodd a oedd yn ofynnol i'r teuluoedd a oedd yn cymryd rhan gofrestru ymlaen llaw i fod yn bresennol yn y gweithgareddau a oedd wedi'u trefnu'n rhan o'r rhaglen Haf o Hwyl. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Prif Swyddog Byw'n Iach fod angen i gyfranogwyr gofrestru ymlaen llaw ar gyfer rhai gweithgareddau oherwydd natur y gweithgareddau, fel Saethyddiaeth. Fodd bynnag, nid oedd ond angen cyrraedd a chwarae i gymryd rhan yn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau. Ychwanegodd y Swyddog hefyd fod y rhaglen lawn yn cael ei rhannu â phartneriaid mewnol ac allanol er mwyn hyrwyddo'r rhaglen a chael unigolion i gymryd rhan.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol gan y Cadeirydd, dywedodd y Swyddog fod y rhaglen yn cael ei hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor a hefyd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol annibynnol a reolir gan y Tîm Chwaraeon a Chwarae.

Wedi hynny, adleisiodd y Cynghorydd Goodjohn sylwadau'r Cadeirydd, sef bod yr adroddiad yn ardderchog, a dweud eu bod yn falch o weld bod sesiynau wedi'u trefnu ar gyfer yr uned teulu cyfan. Un maes a awgrymwyd i'w ddatblygu ymhellach oedd trefnu sesiynau i deuluoedd disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu gartref, ac mewn ymateb i hynny dywedodd y Swyddog fod cysylltiadau'n cael eu creu ag addysgwyr gartref drwy'r sesiynau chwarae amrywiol.

Yna gofynnodd y Cynghorydd Stallard sut roedd y gwasanaeth yn dewis pa gymunedau i gynnal gweithgareddau ynddynt. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Swyddog fod darpariaeth y rhaglen yn ddibynnol ar y partneriaid a oedd yn ymgysylltu â hi, ac ar y lleoliadau y gallai'r partneriaid hynny gynnal eu gweithgareddau. Fodd bynnag, roedd y Tîm Chwaraeon a Chwarae yn ceisio cynnal gweithgareddau dros ardal mor eang â phosib ym mhob rhan o Fro Morgannwg.

Wrth gydnabod mai blaenoriaeth y Tîm Chwaraeon a Chwarae oedd llenwi'r holl leoedd a oedd ar gael ar sesiynau a oedd yn cael eu hysbysebu, holodd y Cynghorydd Cowpe a oedd lleoedd yn cael eu llenwi'n bennaf gan rai a oedd yn ymateb yn gyflym iawn drwy'r cyfryngau cymdeithasol ee, Facebook. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Swyddog fod y Tîm wedi ceisio hysbysebu'r rhaglen yn gynharach yn y flwyddyn galendr, drwy Dîm Cymorth Cynnar y Cyngor, a'i fod

yn fodlon rhoi cynnig ar unrhyw ddulliau i hysbysebu'r rhaglen ar raddfa ehangach, ac i lenwi'r lleoedd a oedd ar gael sail y cyntaf i'r felin. Dywedodd y Swyddog hefyd fod y Tîm Chwaraeon a Chwarae eisoes wedi cadw lleoedd yn ôl i unigolion a oedd yn cael eu cyfeirio'n fewnol er mwyn sicrhau mai'r rhai a chanddynt y mwyaf o angen oedd yn cael lle ar y gweithgareddau. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod mwy i'w wneud o hyd i hyrwyddo ac ymgysylltu â'r unigolion targed. Roedd y Tîm hefyd wedi canolbwyntio ar hyrwyddo'r rhaglen mewn ysgolion lle cafwyd lefelau isel o gyfranogiad yn y gorffennol.

Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad wedyn fod y Tîm Chwaraeon a Chwarae wedi bod yn cynnal mentrau newydd, ar ôl i'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ddyrannu cyllid ar gyfer hynny. Byddai fersiwn nesaf yr adroddiad diweddaru, a fyddai'n cael ei dderbyn y flwyddyn nesaf, felly'n cynnwys datblygiadau pellach. Roedd y tîm felly hefyd wedi defnyddio'r Tîm Gwybodaeth Plant a Phobl Ifanc o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i hyrwyddo'r rhaglen.

Yna canmolodd y Cynghorydd Buckley yr Atodiad i'r adroddiad a oedd yn dangos sut roedd y Tîm Chwaraeon a Chwarae wedi ymateb i'r hyn yr oedd yr unigolion a gymerodd ran yn y rhaglen wedi gofyn amdano, ac roedd yn falch o weld bod bron 50% o'r holl ymatebwyr nid yn unig yn cymryd rhan yn y sesiynau blasu, ond hefyd yn parhau i gymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon yn y tymor hwy.

Yna adleisiodd yr Is-Gadeirydd sylwadau ei gyd-aelodau ar y Pwyllgor ynghylch ansawdd yr adroddiad a'r ffaith ei bod yn bwysig sicrhau bod yr unigolion mwyaf agored i niwed yn cael mynediad i'r rhaglen drwy'r sianeli mwyaf priodol ar eu cyfer. Nododd wedyn fod yr arweinwyr ifanc yn y fideo hyrwyddo oll o Ysgol Uwchradd Whitmore, a holodd a oedd unrhyw ysgolion eraill yn cymryd rhan yn y Cynllun Llysgenhadon. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Swyddog fod 255 o ddisgyblion wedi cofrestru ar y Cynllun Creu Chwarae, ar draws 16 o wahanol ysgolion cynradd, ac roedd yr holl ysgolion ym Mro Morgannwg wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y cynllun. Ar gyfer lefelau uwch y rhaglen fel efydd ac arian, roedd y lefelau hyn yn cael eu hyrwyddo ymhlith yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, roedd Ysgol Uwchradd Whitmore wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth gymryd rhan yn y Cynllun Llysgenhadon Lefel Arian. Yr ysgolion uwchradd eraill a oedd wedi cymryd rhan oedd Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol Stanwell ac Ysgol St Cyres.

Yna gofynnodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor i'r swyddogion ymhelaethu ar baragraff 2.4 yr adroddiad a nodai y byddai adroddiad ar wahân yn manylu ar y cynigion rhanbartholi ar gyfer datblygu chwaraeon yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddarach yn 2023, ac y byddai'n cynnwys argymhelliad i gyfeirio'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol am sylwadau. Yn unol â'r cais, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad fod Chwaraeon Cymru yn dymuno annog penderfyniadau ar raddfa fwy lleol, ac roedd swyddogion ar hyn o bryd yn archwilio pryderon mewnol ynghylch a fyddai ardaloedd o amddifadedd ar eu colled neu ar eu hennill yn sgil y cynigion rhanbartholi. Roedd Bro Morgannwg yn dymuno cadw ei wasanaethau, a'r cynnig cyfredol oedd y byddai bwrdd a fyddai'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu uwch ben yr awdurdod lleol i ddyrannu

cyllid, er y byddai lefel y cyllid yn aros yr un peth. Byddai Cyngor Bro Morgannwg o dan Ddyraniad/Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, canmolodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant y swyddogion am y gwaith eithriadol yr oeddent yn parhau i'w wneud a mynegodd bryder ynghylch cyllid yn y dyfodol i gefnogi gwaith y tîm wrth symud ymlaen. Apeliodd yr Aelod Cabinet ar i holl Aelodau'r Pwyllgor gefnogi mentrau a gynhelir ac a weithredir gan y Tîm Chwaraeon a Chwarae a gofyn io'r Pwyllgor argymell yr adroddiad i'r Cabinet er ystyriaeth. Wedi hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor awgrym yr Aelod Cabinet.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Cymeradwyo a nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Diweddaru Chwaraeon a Chwarae 2022/23.

(2) Bod Adroddiad Blynyddol pellach ar weithgareddau Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae’r Cyngor yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor ym mis Hydref 2024.

(3) Bod Adroddiad Diweddaru Blynyddol Chwaraeon a Chwarae 2022/23 yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr arfer da presennol sy’n cael ei gyflawni gan Dîm Chwaraeon a Chwarae’r Cyngor.

(2) Hysbysu'r pwyllgor yn flynyddol am waith Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.

(3) Sicrhau bod y Cabinet yn cael golwg ar yr adroddiad cadarnhaol a’r gwaith rhagorol sy’n cael ei wneud gan Dîm Chwaraeon a Chwarae’r Cyngor.

420 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CGC) –

Cyflwynodd y Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu, gyda chefnogaeth y Rheolwr Gweithredol ar gyfer diogelu canlyniadau gwasanaeth, yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg a chrynodeb o'r gweithgarwch o fewn y tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Roedd hefyd yn amlygu'r problemau'n gysylltiedig ag adnoddau a chapasiti a oedd wedi achosi i'r maes gwaith gael ei gynnwys ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor.

Roedd Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid/Galluedd Meddyliol (DoLS/MCA) Caerdydd a'r Fro yn parhau i gyflawni'r cyfrifoldebau Corff Goruchwylio gofynnol ar gyfer DoLS ar ran Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro,

Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Roedd y trefniant hwn yn cael ei oruchwylio gan fwrdd rheoli partneriaeth, a oedd ar hyn o bryd yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth o Gyngor Bro Morgannwg, a oedd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob Corff Goruchwylio.

Roedd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid i fod i ddisodli fframwaith cyfreithiol DoLS yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, ar y 5 Ebrill 2023, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y cynnig i gyflwyno Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi'i ohirio am gyfnod amhenodol. Cyn y cyhoeddiad hwn roedd cynigion yn cael eu hystyried i newid model gweithredu'r tîm. Ni fyddai'r cynigion hyn yn cael eu datblygu mwyach, ond byddai strwythur y tîm yn cael ei adolygu i sicrhau bod y gwasanaeth mor effeithlon ac effeithiol â phosib yn ystod 23/24.

Roedd y tabl ym mharagraff 2.2 yr adroddiad yn dangos faint o weithiau y defnyddiwyd awdurdodiad brys gan Awdurdod Rheoli yn ystod 2022/23. Roedd y bwrdd iechyd yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o'r broses ceisiadau brys na'r ddau gyngor. Roedd hyn oherwydd natur y lleoliad iechyd ac anghenion yr unigolyn a allai gael ei dderbyn i'r ysbyty, a'r mesurau diogelu wrth amddifadu o ryddid a allai gael eu rhoi ar waith wrth asesu a thrin y claf.

Roedd paragraffau 2.4 – 2.6 o'r adroddiad yn nodi'r mathau gwahanol o geisiadau am awdurdodiad a olygai fod gan y Cyngor rhwng 7 a 21 diwrnod i'w cwblhau.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y Cyngor yn parhau i weld cynnydd yn nifer y ceisiadau sy'n dod i law flwyddyn ar ôl blwyddyn, paragraffau 2.8 – 2.10. Yn ystod camau cynllunio'r fframwaith newydd arfaethedig (Mesurau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid) cafwyd cyllid blynyddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ôl-groniad o geisiadau. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y gallu i asesu ceisiadau ac roedd yr achosion a oedd wedi ôl-gronni wedi gostwng yn sylweddol (o 226 i lawr i 83) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Roedd y partneriaid yn parhau i wynebu risg o her gyfreithiol am beidio â chydymffurfio â graddfeydd amser statudol. Nid oedd y Cyngor wedi cael ei herio'n gyfreithiol o fewn y rhanbarth hyd yma, ond roedd hyn yn dal i fod yn faes â blaenoriaeth, felly roedd y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar leihau'r achosion a oedd wedi ôl-gronni, ac roedd y mater yn dal ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Y dylid nodi goblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w hanghenion gofal a llety.

(2) Y dylid nodi'r gweithredu arfaethedig o'r Trefniadau Diogelu Rhyddid a'r codau ymarfer cysylltiedig, ar ôl cael eu gohirio am gyfnod amhenodol gan Lywodraeth Cymru.

(3) Bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar oblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i’w trefniadau llety, gofal a chymorth a’r risg i’r Cyngor o her gyfreithiol lle ni chaiff amserlenni statudol eu bodloni.

(2) Mae’r Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried y cynllunio ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhyddid i’r dyfodol ac yn newid hyn a fydd yn dod â chyfrifoldebau’r Cyngor i mewn i unigolion sy’n cael eu hamddifadu o’u rhyddid oherwydd eu hanghenion gofal a chymorth.

(3) Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd a wnaed gyda'r ôl-groniad o geisiadau a'r newidiadau deddfwriaethol disgwyliedig.

421 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) -

Pwrpas yr adroddiad oedd adrodd ar gynnydd argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith a oedd wedi'i diweddaru, ynghyd ag unrhyw lithriant ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau ynghylch y cynnydd yn gysylltiedig â'r argymhellion yr oedd y Pwyllgor Craffu wedi'u gwneud, ac Amserlen y Flaenraglen Waith a oedd wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24.

- Olrhain Argymhellion y Chwarter 1af Ebrill i Fehefin 2023 (ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad);
- Olrhain Argymhellion yr 2il Chwarter Gorffennaf i Fedi 2023 (ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad); ac
- Amserlen y Flaenraglen Waith wedi'i Diweddaru ar gyfer 2023/24 (ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad).

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd fod yr ystyriwyd bod yr holl argymhellion a oedd yn cael eu holrhain wedi'u cwblhau, ac ychydig o lithriant a gafwyd o ran adroddiadau ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor o Chwarter 1 i Chwarter 2, ac roedd hyn yn cael ei fonitro'n barhaus gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Gan hynny, gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno â chamau'r argymhellion a restrwyd yn Atodiadau A a B i'r adroddiad, a chymeradwyo hefyd Flaenraglen Waith

arfaethedig y Pwyllgor i'w huwchlwytho i'r wefan gyhoeddus, fel yr oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

Yn dilyn y cyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, amlygodd yr Is-Gadeirydd yr wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ym mharagraff 2.11 yr adroddiad yn gysylltiedig ag ail-lansio'r ffurflen awgrymu testunau Craffu. Byddai hyn yn digwydd i gefnogi gwaith cynllunio'r Rhaglen Waith ac er mwn nodi gwaith Gorchwyl a Gorffen i'w ystyried gan y Pwyllgor. Er na wyddai lawer am hyn, roedd y ffurflen awgrymu testun craffu eisoes ar gael ar wefan y Cyngor i'w defnyddio gan aelodau o'r Cyhoedd, ac roedd y Pwyllgor yn croesawu mewnbwn gan aelodau o'r cyhoedd i gynyddu lefel y cyfranogiad cyhoeddus mewn cyfarfodydd, ac i ddwyn materion i sylw'r Pwyllgor.

Yn ogystal â hynny, dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod tudalennau gwe penodedig ar gyfer Craffu ar gael ar wefan y Cyngor, a oedd yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth am swyddogaeth Graffu'r Cyngor, gan gynnwys eitemau i'w hystyried yn y dyfodol a oedd wedi'u cynnwys ar flaenraglenni gwaith. Byddai unrhyw destunau a fyddai'n cael eu hawgrymu dryw gyflwyno'r ffurflen a oedd ar gael yn cael eu cyfeirio i sylw'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd perthnasol i ddechrau, ac wedyn yn cael eu hanfon ymlaen at Gadeirydd ac/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor perthnasol i'w hystyried yn rhan o'r broses o lunio'r agenda.

Gan nad oedd gan aelodau'r Pwyllgor unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, daeth y Cadeirydd â'r eitem i ben drwy ofyn yn garedig a fyddai Aelodau o'r Pwyllgor yn cyfeirio unrhyw eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor yn y dyfodol i'w sylw.

Wedyn, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24, fel y'i hatodwyd yn Atodiad C yr adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.